

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION F1 2025-2026



Polisi Amserlen Lai Ysgolion 2025/26

At ddibenion y polisi hwn, mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at feithrinfeydd, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal ac unedau cyfeirio disgyblion.

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Enw'r Ysgol Name of school	Ysgol Bro Cinmeirch
Cyfeiriad a Chod Post Address and Post Code	Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr Y.C., Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 4NL
Rhif ffôn Phone number	01745 890347
Cyfeiriad e-bost ar gyfer y polisi hwn Email address for this policy	Bro.cinmeirch@denbighshire.gov.uk
Dolen we i'r polisi Web link to policy	https://www.ysgolbrocinmeirch.co.uk/adref.htm

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Enw'r polisi / Name of policy	School Reduced Timetable Policy
Rhif fersiwn y Polisi / Policy version number	V1
Dyddiad a gymeradwywyd y Polisi yn ffurfiol gan y Corff Llywodraethol / Date Policy formally approved by Governing Body	07.10.25
Dyddiad daw'r Polisi yn effeithiol / Date Policy becomes effective	07.10.25
Dyddiad Adolygu / Review Date	07.10.27
Arwyddwyd (Pennaeth) / Signed (headteacher)	F Higgins
Arwyddwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethol) / Signed (chair of governing body)	J Lovegrove
Gwybodaeth am y policy hwn ar gael i rieni/gofalwyr / Information about this policy is available to parents/carers	-Gwefan Ysgol -Ffolder Polisiâu yn y Swyddfa

Tabl Cynnwys

1. Beth yw amserlen lai?
2. Egwyddorion cyffredinol amserlen lai
3. Amserlenni llai - pryd i'w gweithredu?
4. Gweithredu amserlen lai
5. Rolau a Chyfrifoldebau

Atodiadau

Atodiad 1 Siart Llif Proses Amserlen Lai

Atodiad 2 Ffurflen Ganiatâd a Chynllun Gweithredu Amserlen Lai Ailintegreiddio

1. Beth yw amserlen lai?

Mae gan bob disgybl hawl i addysg lawn amser. Fodd bynnag, mae [A19](#) Deddf Addysg 1996 yn caniatáu i Awdurdod Lleol beidio â darparu addysg lawn amser os ystyrir ei fod er lles gorau'r plentyn.

Os bydd ysgol yn penderfynu gweithredu amserlen lai, mae'n rhaid cael rheswm priodol dros hynny gan y gallai tribiwnlys ystyried bod yr ysgol wedi gwahaniaethu yn erbyn disgybl (yn groes i a15 Deddf Cydraddoldeb 2010) drwy wrthod darparu addysg lawn amser i'r disgybl.

Mae Llywodraeth Cymru'n argymhell y dylai ysgolion gynnig yr oriau gofynnol canlynol fesul wythnos o ddarpariaeth addysg i bob disgybl:

Dosbarth Derbyn a Blynnyddoedd 1 a 2	- 21 awr
Blwyddyn 3 i 6	- 23.5 awr
Blwyddyn 7 i 10	- 24 awr
Blwyddyn 11	- 25 awr

Mae amserlen lai yn cyfyngu mynediad disgybl at gwricwlwm llawn amser. Dylid ystyried yr effaith a gaiff amserlen lai ar hawl disgybl, eu cynnydd academiaidd ac unrhyw faterion diogelu a allai godi o ganlyniad i weithredu amserlen lai yn ofalus.

2. Egwyddorion cyffredinol amserlen lai

2.1 Mewn sefyllfaoedd eithriadol iawn, mae'n bosibl y bydd rhai amgylchiadau a fydd yn ymofyn amserlen lai dros dro i fodloni anghenion disgybl. Er enghraifft, lle bo cyflwr meddygol yn atal presenoldeb llawn-amser mewn addysg, ystyrir bod amserlen lai yn briodol i gefnogi anghenion meddygol disgybl sy'n gysylltiedig â chynllun gofal iechyd y disgybl. Dylai hyn fod yn rhan o becyn ailintegreiddio cynlluniedig. Dylai amserlen lai gael ei hategu gan amserlen i ddiogelu hawl gyfreithiol disgybl yn unol ag addysg un pwynt sero gan gynnwys cynllun "dysgu cyfunol" a gaiff ei arwain a'i fonitro gan yr ysgol ac sy'n addas ar gyfer y disgybl.

2.2 **Dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am unrhyw ddisgybl a gaiff ei ystyried gan yr ysgol ar gyfer amserlen lai.** Mae angen llenwi'r ffurflen sydd ynghlwm yn niwedd y ddogfen hon i ddynodi ymateb graddol i'r Awdurdod Lleol. Bydd yn rhaid i ysgolion gael cynllun cymorth bugeiliol ar waith sy'n

nodi'r rhaglen ddysgu a ddarperir i'r disgybl ac yn nodi athro/athrawes a fydd yn gyfrifol am farcio'r gwaith a gwblheir a rhoi adborth i'r disgybl.

- 2.3 Ni ddylid ymdrin ag amserlen lai fel datrysiad hirdymor ac mae'n rhaid i unrhyw gytundeb gael terfyn amser, a disgwylir i'r disgybl fynychu'r ysgol ar sail llawn amser erbyn hynny. (Amlinellir amserlenni yn 3.3 isod) Os, er gwaethaf cynllun ailintegreiddio cadarn, na fydd plentyn/unigolyn ifanc yn ymateb mewn modd cadarnhaol i ysgol, efallai y bydd angen ystyried adolygu'r ddarpariaeth bresennol. Os felly, dylai'r ysgol alw cyfarfod â rhieni a Swyddogion perthnasol eraill yr ALI, e.e. y Gwasanaeth Lles Addysg, neu'r Swyddog Addysg priodol o'r GCY neu ADY i drafod p'un a allai asiantaethau eraill ddarparu cyngor a chymorth i fynd i'r afael â'r angen sylfaenol.
- 2.4 Lle bo gan ddisgybl Gynllun Datblygu Unigol, dylid ystyried unrhyw ostyngiad yn amserlen y disgybl yn ofalus a dylid ond ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Dylid ceisio cytundeb gan y Swyddog Awdurdod Lleol perthnasol yn Adran Addysg yr Awdurdod Lleol (byddai hyn yn berthnasol i ysgolion a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan ALI. Lle ystyrir amserlen lai ar gyfer dysgwr â CDU, dylid ystyried yr hawl i'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) (Adran 2B), gan fod hyn wedi cael ei gytuno drwy broses statudol ar gyfer y disgybl. Yn rhan o drafodaethau am amserlen lai ar gyfer dysgwr â CDU, byddai'n debygol iawn y byddai angen Adolygiad o'r CDU i gynnig unrhyw ddiwygiadau i'r CDU. Gallai hyn, er enghraifft, fod yn ddisgrifiad o anghenion (Adran 2A) neu'r DDY (Adran 2B). Byddai hefyd angen CDU Drafft wedi'i ddiweddarau er mwyn i rieni fedru rhoi eu hadborth ar y newidiadau arfaethedig. Dylid dilyn y broses statudol ar gyfer adolygu CDU.
- 2.5 Gellid ystyried amserlen lai yn sgil anghenion dysgu ychwanegol fel achos o wahaniaethu.
- 2.6 Ar gyfer disgybl sy'n derbyn gofal (naill ai drwy gytundeb dan adran 76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 neu Orchymyn Gofal), sydd â chynllun gofal a chymorth neu sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, dylid ystyried gweithredu amserlen lai yng nghyd-destun bregusrwydd sylweddol y disgybl a dylid trafod hyn â'r gwasanaethau plant a fydd o bosibl yn cyflwyno eu barn o ran p'un a ddylid cytuno i hyn neu beidio. Ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal, dylid trafod unrhyw ostyngiad yn amserlen y disgybl a cheisio cytundeb y Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac uwch reolwr gyda chyfrifoldeb rhiant corfforaethol.

2.7 Y Blynyddoedd Cynnar

Dylai ysgolion gymryd pob cam rhesymol i fod yn ymwybodol o unrhyw rwystrau i ddysgu y gallai plentyn eu profi cyn dechrau yn yr ysgol drwy gysylltu â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol i roi cynlluniau pontio gofalus ar waith.

Gall plant y Blynyddoedd Cynnar (Meithrin a Chyn Ysgol) fod ar amserlen lai yn rhan o gynllun pontio. Byddai'n rhaid cwblhau a chytuno ar ffurflen ganiatâd a chynllun gweithredu â'r rhiant neu'r gofalwr.

Mae pob plentyn sy'n cael mynediad at ddarpariaeth anstatudol (darpariaeth Meithrin a Chyn Ysgol) yn gymwys i gael yr un mynediad â'u cyfoedion. Os bydd plentyn anstatudol ar amserlen lai (yn wahanol i'w cyfoedion), dylid cofnodi hyn yn unol â'r polisi hwn.

Dylai ysgolion ystyried a oes angen iddynt gymryd camau ychwanegol i gefnogi darpariaeth effeithiol gan gynnwys gwasanaethau eraill, a chael mynediad at hyfforddiant i staff i fodloni anghenion y plentyn. Ni ddylid ystyried yr amserlen o ran cael mynediad at y gwasanaethau hyn fel rheswm teilwng i ymestyn amserlen lai.

3. Amserlenni Lai - pryd i'w gweithredu?

3.1 Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i ddarparu addysg lawn amser i bob disgybl. Gallai ysgolion wynebu her gyfreithiol os nad ydyn nhw'n gwneud hyn.

3.2 Mae modd defnyddio amserlen lai mewn amgylchiadau eithriadol, lle rhoddwyd cynnig ar bob llwybr a bod prawf o hynny, er enghraifft:

- lle mae ysgol wedi archwilio pob opsiwn i sicrhau bod y disgybl yn bresennol yn rheolaidd gan gynnwys trafodaethau â gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth drwy gyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol a Chynllunio Amlasiantaeth neu gyfarfodydd y panel addysg,
- fel rhan o gynllun i ailintegreiddio disgybl i'r ysgol yn dilyn cyfnod estynedig o waharddiad,
- fel rhan o gynllun ailintegreiddio disgybl ar ôl cyfnod o bresenoldeb isel neu ddiffyg presenoldeb,
- fel rhan o broses symud rheoledig,
- yn dilyn absenoldeb estynedig yn sgil salwch neu resymau meddygol,
- fel mesur dros dro i reoli ymddygiad heriol neu anghenion cymdeithasol ac emosiynol sylweddol.

3.3 Cynlluniau Cefnogi Bugeiliol

Rhaid defnyddio Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB) i hwyluso amserlen lai. Mae'n rhaid i'r CCB gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- gwybodaeth allweddol am y disgybl,
- yr aelod staff cyfrifol gan fod hwn yn fesur cymorth sy'n digwydd yn yr ysgol,
- dyddiad y CCB ac adolygiadau

- camau gweithredu neu ymyraethau a ddarperir i gefnogi'r disgybl
- barn y disgybl ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn sydd ddim yn mynd yn dda,
- barn yr ysgol ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn sydd ddim yn mynd yn dda,
- barn y rhieni / gofalwyr am yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn sydd ddim yn mynd yn dda.

DS Lle cytunir i roi amserlen lai ar waith, mae'n rhaid i'r cynnig neu'r ddarpariaeth hefyd gynnwys dysgu cyfunol drwy ddull dysgu ar-lein yr ysgol i sicrhau dilyniant dysgu. Os nad oes gan y disgybl fynediad at dechnoleg briodol i gael mynediad at y ddarpariaeth hon, bydd disgwyl i'r ysgol ddarparu'r offer sydd ei angen.

4 Gweithredu amserlen lai

4.1 Wrth ystyried rhoi amserlen lai ar waith ar gyfer disgybl, mae'n rhaid i'r ysgol:

- **Roi gwybod i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu eu bod yn lleihau mynediad disgybl at addysg lawn amser.**
- bod yn fodlon bod amserlen lai'n ymyrraeth briodol yn seiliedig ar anghenion y disgybl. Dylid sicrhau bod sail resymegol glir ar sail tystiolaeth dros ystyried amserlen lai fel diwygiad sy'n anelu at gefnogi amgylchiadau'r disgybl. Dylai'r ysgol gynnal asesiad manwl gyda thystiolaeth berthnasol a fydd yn cynnwys tystiolaeth o ymateb graddedig a thrafodaethau mewn cyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol a Chynllunio Amlasiantaeth.
- sicrhau bod y rhieni / gofalwyr wedi rhoi eu caniatâd mewn modd moesegol a gwybodus. Bydd cytundeb ysgrifenedig gan y rhieni / gofalwyr yn ategu at hyn gan sicrhau y ceisir caniatâd â llofnod rhiant cyn dechrau gweithredu amserlen lai. Os nad yw'r rhiant yn cytuno, ni ellir rhoi'r trefniadau ar gyfer amserlen lai ar waith. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i'r ysgol ystyried ymyraethau amgen.
- cwblhau cynllun gweithredu ysgrifenedig manwl gydag amcanion clir, a gytunwyd â'r rhieni / gofalwyr, y disgybl a Swyddog perthnasol yr Awdurdod Lleol, gan nodi llwybr clir ar gyfer ailintegreiddio o ddarpariaeth ran amser i lawn amser dros gyfnod o hyd at hanner tymor, gan adolygu hyn yn rheolaidd.
- sicrhau bod y disgybl yn cyfrannu at y broses o gynllunio, adolygu a gwerthuso'r ymyrraeth arfaethedig
- sicrhau bod addysg lawn amser ar waith ar ddiwedd y cyfnod cytunedig neu drefnu cyfarfod adolygu i nodi'r ffordd ymlaen. Dylid ond cytuno ar yr uchafswm o 7 wythnos mewn amgylchiadau eithriadol gyda chytundeb y rhieni

a'r Awdurdod Lleol. Yn yr achos hwn, **mae'n rhaid** i'r ysgol ailystyried y cynllun

i adlewyrchu'r angen am estyniad.

- ar gyfer unrhyw ddisgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol, sicrhau bod copi o'r cynllun ailintegreiddio'n cael ei anfon at y Tîm ADY, ei uwchlwytho ar ECLIPSE a sefydlu perthynas â'r tîm ADY. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gytuno i'r ymyrraeth ac ni ddylai amserlen ailintegreiddio (lai) ymyrryd ag unrhyw gefnogaeth ychwanegol a ddarperir i'r disgybl o ganlyniad i'w (h)anghenion dysgu.
- diwygio/cynnal asesiad risg o anghenion y disgybl i asesu'r effaith y byddai amserlen lai'n ei chael ar y plentyn unigolyn ifanc. Mae'n hanfodol bod lles y disgybl yn ystod unrhyw absenoldeb o'r ysgol yn cael ei ystyried.
- diwygio unrhyw ddogfennau cyfredol eraill fel sy'n briodol i adlewyrchu'r amserlen lai.
- sicrhau bod y cynnig dysgu cyfunol ar waith a bod gan y disgybl yr offer, seilwaith TG a'r sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad at blatfform dysgu'r ysgol.
- sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn deall eu bod yn gyfrifol am y disgybl pan nad ydynt yn yr ysgol ac yn sicrhau goruchwyliaeth o'r disgybl pan nad ydynt ar y safle a bod hyn wedi'i gofnodi ar y cytundeb.
- **darparu ffurflenni unigol disgyblion gan yr ysgol gydag enw'r disgybl, ysgol, grŵp blwyddyn, dyddiad dechrau'r cynllun** (yn unol ag ymarfer yr Awdurdod Lleol ar gyfer monitro), y cyfeiriad e-bost i ddychwelyd ffurflen ydi:

amserlenllai@sirddinbych.gov.uk

5. Rolau a Chyfrifoldebau

5.1 Mae'n rhaid i'r ysgol:

- Roi gwybod i Adran Addysg yr ALI eu bod yn ystyried amserlen lai ar gyfer disgybl (gweler y ffurflen sydd ynghlwm i'w chwblhau gan yr ysgol cyn rhoi amserlen lai ar waith).
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu am unrhyw amserlenni llai a gynigir ar gyfer disgyblion.
- Rhoi gwybod i Adran Addysg yr ALI bod amserlen lai ar waith.
- Cwrdd â'r rhiant / gofalwr i ystyried cynigion.


- Darparu gwaith digonol a addaswyd yn briodol ar gyfer y disgybl ar gyfer yr oriau nad ydynt yn yr ysgol. Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei farcio, ei asesu a bod y disgybl yn derbyn adborth adeiladol.
- Sefydlu trefniadau cadarn i aelod o staff uwch a enwyd fonitro ac adolygu'r cynllun yn rheolaidd.
- Sicrhau bod y cytundeb ysgrifenedig a'r cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau a'i rannu gyda'r Awdurdod Lleol.
- Sicrhau trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol allweddol mewn perthynas â'r cynnydd tuag at ailintegreiddiad llawn y disgybl i'r ysgol.
- Cofnodi presenoldeb y disgybl gan ddefnyddio'r codau cofrestru priodol, dylid defnyddio'r cod "C", h.y. absenoldeb awdurdodedig, ar gyfer unrhyw sesiynau lle mae'r disgybl yn ymgymryd â dysgu cyfunol o'u cartref heb oruchwyliaeth uniongyrchol gan aelod o staff yr ysgol.
- Ymgynghori ag Adran Addysg yr ALI a darparu gwybodaeth briodol fel yr amlinellir uchod i alluogi'r rheiny sydd ynghlwm â'r disgybl i wneud penderfyniad gwybodus ac ystyried yr angen am gyfranogiad swyddog (os nad ydynt eisoes ynghlwm â'r achos) os ceisir estyniad i'r cyfnod o saith wythnos.

5.2 Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol:

- sicrhau trefniadau monitro a herio priodol drwy gasglu ffurflenni bob tymor.
- bod yn rhan o unrhyw gais am estyniad pellach i amserlen lai er mwyn parhau â'r amserlen y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o wythnos.
- cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd gydag ysgolion i archwilio trefniadau lle mae amserlenni llai ar waith.

Atodiad 1

Siart Llif Proses Amserlen Lai



POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Atodiad 2 - Ffurflen Ganiatâd a Chynllun Gweithredu Amserlen Lai Ailintegreiddio

Enw'r Disgybl:		RhUD:	
Dyddiad Geni:		Rhywedd: GWRYW/BENYW	
Ysgol:		Grŵp Blwyddyn:	
Prydau Ysgol Am Ddim: YDI / NAC YDI	Plentyn sy'n Derbyn Gofal: YDI / NAC YDI	Saesneg fel Iaith Ychwanegol: YDI / NAC YDI	Anghenion Dysgu Ychwanegol: YDI / NAC YDI
Os ydynt yn derbyn Prydau Ysgol Am Ddim: Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y plentyn yn cael mynediad at brydau cinio?			
Os yw'r Plentyn yn Derbyn Gofal: Gyda phwy y trafodwyd y cynigion mewn perthynas â'r amserlen lai a beth oedd eu barn?		Awdurdod Lleol:	
		Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol:	
		Enw'r Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal	
		Wedi trafod â'r Swyddog Addysg:	
Os ydi'r disgybl ar Gofrestr Amddiffyn Plant/ Cynllun Gofal a Chefnogaeth CASP		Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol:	
		Barn y Gweithiwr Cymdeithasol	
A yw'r plentyn wedi cael amserlen lai o'r blaen? DO / NADDO		Os do, pryd:	
Enw'r rhieni / gofalwyr:			
Enw'r arweinydd yn yr ysgol:			
Dyddiad y drafodaeth rhwng yr arweinydd yn yr ysgol a'r Pennaeth a'r corff llywodraethu i gytuno ar hyn:			
Enw'r Pennaeth:			
Enw Swyddog Arweiniol yr ALL:			
Enw'r Seicolegydd Addysg:			
Enw'r Swyddog Lles Addysg:			

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Rheswm dros yr amserlen lai (gan gynnwys tystiolaeth)

- Cyflwr meddygol tymor byr
- yn rhan o gynllun i ailintegreiddio disgybl i'r ysgol yn dilyn cyfnod estynedig o waharddiad,
- yn rhan o gynllun ailintegreiddio disgybl ar ôl cyfnod o bresenoldeb isel neu ddiffyg presenoldeb,
- yn rhan o broses symud rheoledig,
- yn dilyn absenoldeb estynedig yn sgil salwch neu resymau meddygol,
- fel mesur dros dro i reoli ymddygiad heriol neu anghenion cymdeithasol ac emosiynol sylweddol.

Rhestr Dysgwyr Diamddiffyn - (Llywodraeth Cymru)

Dysgwyr ag ADY

Dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol sydd â Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol (SIY/CIY)

Plant sydd wedi cael profiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal

Dysgwyr sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)

Plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches

plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim

Gofalwyr ifanc

Plant mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

Dyddiad y cyfarfod lle cytunwyd ar yr amserlen lai:	
Unigolion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod uchod:	
Dyddiad dechrau'r amserlen lai:	
Nifer yr oriau o addysg bob wythnos	
Dyddiad adolygu'r amserlen lai:	
Dyddiad dechrau'r amserlen lai:	

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Amserlen	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
Amser yn yr ysgol					

Amcanion yr amserlen lai:

Cynllun Ailintegreiddio

Dyddiad adolygu	
Canlyniad:	

POLISI AMSERLEN LAI YSGOLION

F1 2025-2026

Rwyf i / rydym ni'n cytuno i roi amserlen lai ar waith ar gyfer fy mhlentyn am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol ar amserlenni ailintegreiddio. Trafodwyd hyn â mi yn fanwl ac rwy'n deall y bydd yr ymyrraeth hon yn cefnogi fy mhlentyn i ailintegreiddio i addysg lawn amser.

Rwyf i/ Rydym ni yn cytuno i fod yn gyfrifol am fy mhlentyn/ein plentyn yn ystod yr oriau lle nad ydynt yn mynychu'r ysgol / addysg.

Llofnod y rhiant/gofalwr:

Dyddiad:

Llofnod yr ysgol:

Dyddiad:

Llofnodion eraill (lle bo angen):

Swyddog ALI:

Dyddiad:

Gweithiwr Cymdeithasol:

Dyddiad: